Cyflwyno'r ffurflen ôl troed carbon derfynol

Wedi iddo gael ei gwblhau rhaid i'r ôl troed gael ei wirio a'i gymeradwyo gan adolygydd albert er mwyn sicrhau cywirdeb. Yna caiff ei gyfeirio'n awtomatig at archwilydd allanol ar gyfer adolygiad sicrwydd safonol. Ar ôl ei archwilio a'i gymeradwyo, bydd yr adolygydd albert enwebedig yn derbyn e-bost awtomataidd oddi wrth support@greenstoneplus.com, gydag 'Ôl troed carbon terfynol wedi'i gymeradwyo' yn y llinell pwnc.

Cyfrifoldeb y cwmni cynhyrchu wedyn yw anfon yr e-bost hwn ymlaen i'w cyswllt PAC/cyfleu yn S4C (mb@s4c.cymru) o fewn pythefnos i ddarlledu'r rhaglen. Mae hyn yn rhan o gam olaf gwaith papur y cynhyrchiad.

Noder nad yw cyflwyno ôl troed carbon terfynol yn rhoi'r hawl awtomatig i raglen ddefnyddio 'bathodyn' albert ar y sgrin. I gael gwybodaeth am sut i fod yn gymwys ar gyfer y bathodyn, gweler adran ardystio albert.